

## **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Gyfarfod 4, County Hall, Ruthin, Dydd Iau, 30 Ionawr 2020 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Ellie Chard, Ann Davies, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Arwel Roberts a/ac David Williams

Roedd Kathleen Jones a Neil Roberts, yr aelodau cyfetholedig yn bresennol ar gyfer Eitem 6 ar yr Agenda – Canlyniadau Arholiadau Allanol a Wiriwyd.

Roedd yr Aelodau Cabinet – y Cynghorydd Bobby Feeley, Richard Mainon, Huw Hilditch-Roberts a Tony Thomas yn bresennol ar ôl cael eu gwahodd gan y pwyllgor ar gyfer eitemau sy'n ymwneud â'u portffolios.

Cynrychiolwyr GwE ar gyfer eitem fusnes 6: Jacqueline Chan a Mair Herbert

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Meirick Lloyd-Davies a Graham Timms

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (AR), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KIE), Uwch Swyddog Gwella Ysgolion – Uwchradd (JM), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Gweinyddydd Systemau Perfformiad a Rhaglen (EJ), Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid (LG), Pen Lyfrgellydd (BH), Cydlynnydd Craffu (RhE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE).

## **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Jones (Cadeirydd), Martyn Holland, Bob Murray, Peter Scott a Geraint Lloyd Williams.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Hugh Irving y cyfarfod hwn.

Gwnaeth y Pwyllgor anfon eu cofion cynnes a'u dymuniadau am adferiad buan i'r Cynghorydd Huw Jones.

## **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Derbyniwyd datganiadau o gysylltiad personol ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen, Canlyniadau Arholiadau Allanol a Wiriwyd.

- Ellie Chard, Llywodraethwr yn Ysgol Tir Morfa
- Anne Davies, Llywodraethwr yn Ysgol y Castell
- Arwel Roberts, Llywodraethwr yn Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
- Hugh Irving, Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Prestatyn

### 3 **MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

None

### 4 **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019.

#### **Materion yn Codi -**

Hafan Deg, y Rhyl – cadarnhaodd y Cydlynnydd Craffu fod y daflen newydd i hyrwyddo'r gwasanaeth wedi'i dosbarthu drwy'r ardal.

Ymweliad aelodau Gofal Iechyd Cefndy – gofynnodd y Cydlynnydd Craffu am gadarnhad mai un ymweliad ar gyfer yr holl aelodau oedd hwn, yn hytrach nag ymweliadau unigol, a chytunodd y Pwyllgor.

***Penderfynwyd y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.***

### 5 **ADOLYGIAD O WASANAETHAU CYFLE GWAITH A DYDD**

Yn absenoldeb y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Mewnol Gofal Cymdeithasol i Oedolion (oherwydd rhesymau personol), cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yr adroddiad (a ddisbarthwyd eisoes). Roedd yr adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o'r Gwasanaethau Gweithgareddau Cyfleoedd Gwaith a Chyfleoedd Dydd i oedolion ag anableddau cymhleth. Dywedodd fod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi rhoi ystyriaeth yn ddiweddar i ganfyddiadau'r adolygiad ac roeddent yn cytuno â'r casgliadau a luniwyd a'r argymhellion a gyflwynwyd.

Yn ystod yr adolygiad, daeth yn amlwg fod defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofawyr yn rhoi gwerth ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu cymhleth, a bod nifer ohonynt am weld y gwasanaethau yn gwella a datblygu. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad:

- Byddai Meifod Wood a Garden Control Services yn elwa o gael eu gweithredu fel mentrau cymdeithasol oherwydd byddai hyn yn eu galluogi i dyfu a datblygu'n fusnesau yn eu rhinwedd eu hunain, a fyddai'n ehangu'r profiadau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Dylai Gwasanaethau Arlwy Popty aros fel rhan o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ond elwa ar gyfle sydd ar gael i adleoli i le sydd ar gael ym mhencadlys newydd Denbighshire Leisure Limited yn Ninbych, lle gellir gosod cegin bwrpasol ar gyfer y Gwasanaeth. Byddai ad-leoli yn galluogi Popty i ddatblygu'n wasanaeth lleoliad profiad gwaith a hefyd cynorthwyo'r Gwasanaeth i archwilio hyfywedd cadw'r gwasanaeth darparu rhyngosod ymhellach yn Denbighshire Leisure Limited.
- Byddai'n fanteisiol i'r gwasanaeth Canfod Swyddi drosglwyddo i'r Gwasanaeth 'Sir Ddinbych yn Gweithio'. Wrth wneud hynny, byddai'n gallu

manteisio ar gysylltiadau a phrofiad gwasanaeth cefnogi cyflogaeth pwrpasol, a

- Byddai Y Bont a Golden Group yn elwa o gyfuno fel un gwasanaeth, gan adleoli o Ganol y Dre i ardal wedi'i hailwampio'n bwrpasol yn Neuadd y Sir yn Rhuthun.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth:

- roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cefnogi'r cynigion ar ôl cael sicrwydd y byddai'r unigolion hynny sy'n gweithio yng nghwmni Popty yn parhau i allu cwrdd a chymdeithasu gyda chydweithwyr eraill sy'n gweithio gyda nhw ar hyn o bryd yng Nghanol y Dre, gan fod nifer ohonynt yn cymryd rhan mewn gwasanaethau cyfleoedd gwaith eraill ar ddiwrnodau eraill;
- amcangyfrifwyd y byddai gwaith ailwampio i ddarparu ar gyfer ad-leoli gwasanaethau i Neuadd y Sir ac i Ddinbych yn costio tua £120K - £150K. Rhagwelwyd y gellid ariannu'r gost hon yn rhannol trwy gais llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Canolraddol ac i Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor ei hun. Dylai fod digon o gyllid ar gael i osod yn erbyn y gost trwy'r derbyniad cyfalaf a fyddai ar gael wrth werthu adeilad Canol y Dre hefyd;
- ni fyddai bwlch o ran darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol yn ystod y cyfnod pontio, mae'n bosibl y bydd gorgyffwrdd oherwydd byddai'r pontio'n raddol gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'w hamgylchedd newydd gan ddefnyddio dull ymgyfarwyddo fesul cam;
- byddai penseiri ac arbenigwyr eraill yn cael eu hymgysylltu i ddylunio cyfleusterau ystafell ymolchi a gorffwys priodol yn Neuadd y Sir i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth, a
- byddai datblygu Meifod Wood a Garden Control yn fentrau cymdeithasol yn agor cyfleoedd i'r ddau wasanaeth a helpu i sicrhau y byddai digon o staff ar gael dros gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch ac ati.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn awyddus i ymweld â'r gwasanaethau presennol a ddarperir o Ganol y Dre, Meifod Wood a Garden Control a chytunodd y Pennaeth Gwasanaeth i hwyluso'r ymweliadau.

### ***Penderfynodd y Pwyllgor adrodd i'r Cabinet***

- I. ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) yn rhan o'i ystyriaethau;***
- II. yn amodol ar y sylwadau uchod, ei fod yn cefnogi'r bwriad i adleoli pedwar gwasanaeth (Popty Catering Services, Y Bont, Jobfinding a The Golden Group) ac uno'r Bont a The Golden Group i un gwasanaeth wedi'i gyd-leoli; ac***

***argymell cymeradwyo'r cynnig i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cwmniâu cymdeithasol mewn perthynas â dau weithgaredd sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan y gwasanaeth, sef Meifod Wood a Garden Control.***

## **6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL A DDILYSWYD**

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg yr adroddiad a'r atodiadau (a ddisbarthwyd eisoes) gan bwysleisio mai un o'r heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth ar hyn o bryd

oedd eu bod yn darparu gwasanaethau mewn cyfnod lle roeddent yn aros i gwricwlwm newydd gael ei gyflwyno yn fuan. Roedd hynny'n golygu eu bod yn darparu'r gwasanaeth ar hyn o bryd heb wybod pa ddangosyddion y byddent yn cael eu hasesu yn eu herbyn, gan nad oeddent wedi'u cytuno eto. Er bod ymarferwyr addysg yn cydnabod bod y set gul o ddangosyddion a ddefnyddiwyd o'r blaen i fesur cyrhaeddiad addysgol disgyblion wedi cael effaith andwyol ar ddisgyblion ac ysgolion, nid oedd y data a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn cyflwyno darlun gwir a chyfannol o gyrhaeddiad pob disgybl unigol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, gwnaeth yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth, y Pen Reolwr Addysg a chynrychiolwyr GwE ddweud:

- er bod elfen o gydberthyniad rhwng amddifadedd, tlodi a pherfformiad addysgol gwael, roedd ffactorau cyfrannol eraill fel iechyd meddwl a materion lles. Iechyd Meddwl oedd yr her fwyaf a wynebir gan Addysg a Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd;
- Roedd Sir Ddinbych yn llwyr ymwybodol o lle roedd eu disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cael eu haddysgu ac roedd ganddynt broffil addysg a lles ar bob un, felly roedd swyddogion yn gwybod yn union beth oedd eu hanghenion a'u galluoedd;
- roedd llawer o waith yn ardaloedd o amddifadedd y sir yn canolbwyntio ar drawsnewid plant ifanc i mewn i addysg;
- roedd staff addysg y Sir a GwE yn olrhain cynnydd ysgolion a disgyblion unigol yn rheolaidd ar bob Cyfnod Allweddol (CA) ac felly gallent deilwra eu rhaglen gymorth i anghenion penodol pob ysgol unigol;
- oherwydd gwaith arbrofol sy'n cael ei wneud yng ngham CA3, ni ddylai'r gostyngiad mewn perfformiad ar y cam hwn beri pryder, oherwydd roedd lleihad o ran cyrhaeddiad ar sail genedlaethol yn 2019;
- roedd yn anodd cymharu perfformiad yn CA4 yn 2019 gyda blynyddoedd blaenorol oherwydd y newidiadau sylweddol yn y rhaglen addysg yng Nghymru a'r ffaith fod y cipio data cenedlaethol ar gyfer ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau mynediad cyntaf nawr. Er hynny, bu gwelliant mewn canlyniadau Gwyddoniaeth;
- roedd cyrhaeddiad disgyblion ar gyfer cymwysterau'r Gymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn nhri o'r pedwar cyfnod allweddol. Roedd hynny'n adlewyrchiad ar y buddsoddiad a wnaed yn y blynyddoedd diweddar mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir;
- nod y Gwasanaeth Addysg oedd i bob disgybl ac ysgol gyflawni'r gorau a allent, a hynny'n gymesur â'u gallu, dyna pam mae pwyslais yn Sir Ddinbych ar ddarparu gwybodaeth ansoddol glir a thryloyw ar gyrhaeddiad;
- roedd canlyniadau arholiadau yn dangos un agwedd benodol ar addysg ac roedd adroddiadau arolygu Estyn yn darparu darlun mwy cyfannol o lawer a dadansoddiad o ansawdd addysg, gofal ac arweinyddiaeth a ddarperir gan yr ysgolion a'r Awdurdod Addysg, oherwydd roeddent yn ystyried agweddau eraill ar y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol a'u heffaith ar les cyffredinol disgybl;
- Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych oedd Cadeirydd presennol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Felly roedd yn gallu rhannu gyda Chyfarwyddwyr Addysg eraill profiad Sir Ddinbych o gyfuno

Addysg a Gwasanaethau Plant dan un pennaeth gwasanaeth a'r manteision roedd hynny'n eu cyflwyno i ddyfeisio dull plentyn cyfan o ddarparu gwasanaethau;

- nid oedd Ysgol Crist y Gair, sy'n ysgol pob oed, mewn sefyllfa i elwa o'r trefniadau 'clwstwr' effeithiol iawn sydd ar gael i ysgolion eraill yn y sir. Fodd bynnag, roeddent yn gallu gweithio gyda phenaethiaid ac ysgolion eraill i rannu profiadau ac arferion. Yn ddiweddar, roedd cynrychiolwyr o'r ysgol wedi mynychu cyfarfod Grŵp Monitro Safonau Ysgolion ac er bod heriau i'w goresgyn o hyd, roeddent wedi rhoi cyflwyniad a gweledigaeth cadarnhaol ar gyfer y dyfodol i'r Grŵp, a
- byddai data gwahardd o'r ysgol yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn amdano, yn cael ei gyhoeddi yn genedlaethol yn ystod yr wythnosau nesaf a byddai'n cael ei ddsbarthu i aelodau'r Pwyllgor pan fyddai ar gael.

Ar ddiwedd y drafodaeth, gwnaeth y Pwyllgor longyfarch y Gwasanaeth Addysg, GwE, athrawon a disgyblion am eu perfformiad yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Ar ôl adolygu'r data perfformiad oedd ar gael, roeddent yn teimlo sicrwydd bod gan staff addysg y Sir a GwE wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o allu pob disgybl, agweddau a oedd angen eu gwella a lle roedd angen canolbwyntio adnoddau er mwyn gwella cyrhaeddiad a chefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu. Roedd hyn i'w ganmol o ystyried y pwysau a achoswyd gan gyflwyno cwricwlwm newydd yn fuan, a'r ffaith nad oedd data meincnodi cenedlaethol ar gael.

Felly;

**Penderfynwyd: - yn amodol ar y sylwadau uchod:**

- i. derbyn y wybodaeth o ran perfformiad a wiriwyd disgyblion ysgol y sir yng Nghyfnod Allweddol 4 ac arholiadau ôl-16 yn ystod haf 2019, gan gydnabod y rhwystrau a oedd yn bodoli a oedd yn rhwystro'r Gwasanaeth Addysg rhag cynnal ymarferion cymharu gyda chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol a gyda chanlyniadau awdurdodau addysg lleol eraill; a***
- ii. eu bod yn fodlon bod staff Gwasanaeth Addysg y Cyngor a staff GwE wedi nodi'r tueddiadau a oedd yn dod i'r amlwg a'r meysydd a oedd angen gwelliant wrth symud ymlaen ar bob Cyfnod Allweddol.***

## **7 FERSIWN DDRAFFT POLISI ENWI A RHIFO STRYDOEDD**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol yr adroddiad (a ddsbarthwyd eisoes) a chasgliadau'r adolygiad, a oedd wedi'i gynnal ar gais y Pwyllgor Craffu yn dilyn eu pryderon nad oedd y polisi yn adlewyrchu gofynion polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn iawn.

Gwnaeth y Gweinyddydd Systemau Perfformiad a Rhaglen amlinellu'r camau a gymerwyd fel rhan o'r adolygiad, a oedd yn cynnwys ceisio arweiniad a chyngor gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Hysbyswyd yr aelodau:

- byddai cael un enw swyddogol ar gyfer pob stryd newydd yn cynorthwyo'r gwasanaethau golau gas ac eraill i ganfod eiddo yn gyflym pe bai argyfwng;
- roedd y Lluoedd Arfog yn cytuno na ddylai strydoedd gael eu henwi ar ôl milwyr a oedd yn gwasanaethu a oedd wedi marw, a hynny fel mater o drefn. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn haeddu ystyriaeth o bosibl dim ond os oeddent wedi cael anrhydeddau am ddewrder ar lefel uchaf, e.e. Croes Fictoria;
- ni fyddai'r polisi newydd yn ffafrio enwau strydoedd dwyieithog o hyn ymlaen, a byddai pob stryd newydd yn cael enwau Cymraeg yn unig;
- byddai enwau strydoedd Saesneg yn unig sydd eisoes yn bodoli yn aros felly, ni fyddai arwyddion stryd dwyieithog yn cael eu codi i ddisodli'r arwyddion hyn pan fyddai angen eu disodli;
- er bod rhai enwau strydoedd yn gyfieithiadau llythrennol o'r enwau Cymraeg neu Saesneg gwreiddiol, nid oedd hyn yn wir am rai eraill, ac felly pe bai'r ddwy fersiwn yn cael eu harddangos, gallent achosi dryswch i'r gwasanaethau brys. Roedd gan y Sir gofnod o'r holl enwau strydoedd a gydnabuwyd yn swyddogol yn Gymraeg a Saesneg, gelwid rhain yn enwau stryd 'Math 4'.

Soniodd Aelodau fod Sir Ddinbych wedi mabwysiadu polisi o ddisodli pob arwydd enw stryd gydag arwyddion dwyieithog, adeg ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, fodd bynnag nid oedd y rhaglen ddisodli hon wedi'i chyflawni'n llawn.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts am i'r ffaith ei fod yn anghytuno â'r polisi o beidio disodli arwyddion enwau stryd Saesneg, fel roedd angen eu disodli, gydag arwyddion dwyieithog, gael ei chofnodi.

***Penderfynwyd: - yn amodol ar yr arsylwadau uchod a'r gwrthwynebiad a nodwyd,***

- i. bod strydoedd newydd yn cael eu henwi yn Gymraeg yn unig;***
- ii. bod y dewis i enwi strydoedd ar ôl unigolion yn cael ei dynnu o'r polisi;***
- iii. diwygio'r polisi i adlewyrchu hyn a'i gyflwyno i'r Cabinet ei gymeradwyo; a***
- iv. ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5) yn rhan o'i ystyriaethau***

## **8 SAFONAU GWASANAETH LLYFRGELL 2018-19 A STRATEGAETH DDRAFFT Y GWASANAETH LLYFRGELL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd eisoes) gan bwysleisio bod Sir Ddinbych wedi bodloni'r 12 hawl craidd a osodwyd gan Is-adran Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru (LIC), yn ystod 2018-19. Hefyd, roedd wedi cyrraedd 8 allan o 10 targed cyfansoddol o'r Dangosyddion Ansawdd yn llawn, wedi cyrraedd un yn rhannol, ac wedi methu â chyrraedd y targed a oedd yn ymwneud â chaffael deunydd darllen cyfredol fesul 1,000 o'r boblogaeth.

Dywedodd y Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid a'r Pen Lyfrgellydd wrth yr Aelodau fod Gwasanaeth Llyfrgell y Sir yn hynod o boblogaidd gyda phreswylwyr a bod llawer o ddefnyddwyr yn ymweld â'r llyfrgelloedd, fel roedd yr ystadegau yn dangos. Y rheswm dros hyn oedd fod y Gwasanaeth Llyfrgell yn darparu'r gwasanaethau oedd eu heisiau ar breswylwyr ac roedd yn helpu preswylwyr i gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau eraill wrth eu cartrefi.

Roedd y gwasanaeth llyfrgell modern yn fwy o lawer na gwasanaeth benthycy llyfrau, roedd yn helpu i gyflawni Strategaeth Wirfoddoli'r Sir, cefnogi darparu'r agenda iechyd a lles a chynnal cyfarfodydd cymdeithasol i bob grŵp oedran, yn amrywio o fabis i'r henoed, a oedd yn helpu i leddfu arwahanrwydd cymdeithasol.

Canmolodd Aelodau'r Gwasanaeth a'i staff am yr amrywiaeth eang o wasanaethau roeddent yn eu darparu ac am yr adroddiad MALD rhagorol a'r ffordd effeithlon roeddent wedi gweithredu'r gwasanaeth adnewyddu cerdyn bws.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Gwasanaeth a'r Pen Lyfrgellydd:

- cadarnhawyd mai bwriad y Gwasanaeth oedd sicrhau bod y 'pecynnau cof dementia' ar gael i ddefnyddwyr pob llyfrgell maes o law, drwy gyllid a sicrhawyd gan gynllun Ymwybodol o Ddementia Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (DVSC).
- nodwyd bod y Gwasanaeth yn cydweithio'n agos â chynghorau tref mewn ymgais i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r llyfrgell ymhellach, yn enwedig i ddenu pobl o bentrefi cyfagos heb lyfrgell eu hunan i ddod i ddefnyddio'u llyfrgell agosaf .
- cadarnhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adleoli Llyfrgell y Rhyl i hen safle Marchnad Queen's yn y dref fel rhan o ailddatblygu'r ardal, er nad oedd penderfyniad pendant wedi'i wneud eto.

***Penderfynwyd: - yn amodol ar yr arsylwadau uchod ar berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, derbyn yr adroddiad, canmol y Gwasanaeth a'i staff am eu gwasanaeth a pherfformiad rhagorol, a gofyn bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2021.***

## **9 RHAGLEN WAITH CRAFFU**

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol. Atgoffwyd yr Aelodau y dylai'r ffurflen cynnig ar gyfer y rhaglen gwaith i'r dyfodol craffu (atodiad 2) gael ei llenwi ar gyfer y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i'w hadolygu a'i dyrannu. Roedd amser o hyd i gyflwyno unrhyw ffurflenni brys ar gyfer cyfarfod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu y prynhawn hwnnw, a byddai'r cyfarfod nesaf wedyn ar 19 Mawrth.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor mai dim ond dwy eitem oedd ar agenda cyfarfod mis Mawrth, ond roedd y ddwy ohonynt yn bynciau mawr ac

awgrymodd na ddylid ychwanegu unrhyw eitemau eraill. Cytunodd y pwyllgor a gofynnwyd bod yr aelodau arweiniol perthnasol yn cael eu gwahodd.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, nodi cynnwys Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Perfformiad.**

## **10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Roedd y Cynghorwyr Ellie Chard ac Arwel Roberts am fynychu cyfarfod Grŵp Monitro Safonau Ysgolion yn Ysgol Uwchradd Dinbych y prynhawn hwnnw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 12:35*